

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mawrth 10, 2020 am 7.30 o'r gloch.

www.cyngorllanelltyd.cymru

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 11, 2020

4. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 11, 2020

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency), i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu ratingwales@voa.gsi.gov.uk. Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

Rhodddwyd gywbod (19/2/2020) i'r aelodau nid yw Mr H.B. Davenport eisiau rhoi pris i wneud gwaith i'r toiledau oherwydd mae ganddo lawer o waith i'w wneud. Hefyd, nid rwy'n cael ateb gan Mr Richard Williams os mae am brisio'r gwaith.

Cafwyd gwybod (20/2/2020) gan Gethin Williams bod Mr Richard Williams methu rhoi pris am ei fod yn rhy brysur, ond rhoddodd enw arall. Mae Gethin Williams wedi gofyn i Cyngor Gwynedd cael golwg ar y toiledau i gael gwybod pa waith sydd angen ei wneud gan gynnwys amcan pris i wneud y toiledau'n dderbyniol.

Cafwyd wybod (20/2/2020) gan Mrs Eirlys Roberts, trwy law Gethin Williams, bod trigolion Bontddu eisiau'r toiledau ar agor. Mae pobol lleol ac ymelwyr yn gwneud eu busnes tu cefn y toiledau a hefyd yn y safle bysus, ac mae'n drewi.

b. Llythyr (13/2/2020) oddi wrth Cyngor ar Bopeth yn diolch am ein rhodd o £100.

c. Llythyr (17/2/2020) oddi wrth Theatr Bara Caws yn diolch am ein rhodd o £50.

ch. Llythyr (24/2/2020) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £150.

d. Llythyr (19/2/2020) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021. Mae'r adroddiad ar we [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2020 i 2021](#) Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn taliadau yn rhanol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.

Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.

Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:

Mae opsiwn gan bob cyngor i ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth. Lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 45c y filltir.

dd. Bil (21/2/2020) am £52.38 oddi wrth Dŵr Cymru at wasanaethu Toiledau Cyhoeddus Bontddu am y cyfnod 9 Awst 2019 – 11 Chwefror 2020. Mae'n cael ei dalu drwy DD. Taliad am y cyfnod 5 Chwefror 2019 – 8 Awst 2019 oedd £113.04. Caewyd cyflawniad dŵr i'r toiledau ar 19/9/2019.

e. Balans yn y banc ar 29 Chwefror 2020: £

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (23/1/2020) oddi wrth Cyngor Gwynedd gyda chopi o lythyr gan BT yn rhoi eu rhaglen i ddileu rhai ffonau talu cyhoeddus. Ar y rhaglen mae caban ffôn coch cyhoeddus Bontddu ac maent angen gwybod os mae ei angen neu i'r cyngor ei fabwysiadu am £1. Rhif y ffôn yw 01341 430 361. Mae BT wedi gosod hysbysiad ymgynghori ar y caban. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 20/4/2020. Mae'r Cyngor angen ein sylwadau erbyn 6/4/2020.

Cafwyd gwybod (20/2/2020) gan Mrs Eirlys Roberts, trwy law Gethin Williams, nid oes neb yn defnyddio'r ffôn ciosg yn Bontddu.

b. Llythyr (13/2/2020) oddi wrth Clerc Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod gwaharddiad defnydd dros dro ar lwybr march rhif 68 yng nghymuned Llanelltyd a rhan o lwybr march rhif 34 yn nhref Abermaw. Mae'r gorchymyn (ail rybudd) yn dod i rym ar Chwefror 17, 2020 am 6 mis. Mae'r gorchymyn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith torri / clirio coed. Disgwylir cwblhau'r gwaith o fewn 9 mis. Amgáu mae manylion yr orchymyn a map yn dangos y llwybr.

c. Llythyr (11/2/2020) oddi wrth Pennaeth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi cyngor ar Brexit i drigolion a busnesau. Mae gwybodaeth ar wefannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth DU trwy www.gwynedd.llyw.cymru/brexit Mae gwybodaeth ynghylch effeithiau gadael yr UE ar wasanaethau Cyngor Gwynedd ar gael trwy www.gwynedd.llyw.cymru/cyswllt

ch. Llythyr (19/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol ar 26/3/2020 am 9.30yb yn Adeilad Hafod a Hendre, Maes Sioe Amaethyddol Cymru. Amgáu mae Agenda a Ffurflen Archebu; cost fydd £55 y pen. Bydd y cyfarfod yn gyfle cael gwybod y gwaith sy'n cael ei wneud gan gynghorau cymuned a thref.

d. Llythyr (26/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion o sesiynau hyfforddi yn Gymraeg cynhelir yn Canolfan Hen Blas, Stryd Fawr, Y Bala. Y sesiynau bydd yn cael eu rhoi a'u dyddiad: Y Cyngor (8/4/2020); Cod Ymddygiad (6/5/2020); Sgiliau Cadeirio (3/6/2020); Y Cyngor fel Cyflogydd (1/7/2020). Cynhelir y sesiynau rhwng 6.30yh a 9:00yh. Cost hyfforddant yw £40.

dd. Llythyr (2/3/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion swydd sydd ganddynt ei lenwi sef Swyddog Polisi. Bydd y swyddog yn gweithio o gartref ac yn rhan o dîm. Dyddiad cau – 17/3/2020.

e. Llythyr (2/3/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion swydd sydd ganddynt ei lenwi sef Swyddog Datblygu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd y swyddog yn gweithio o gartref ac yn rhan o dîm. Dyddiad cau – 17/3/2020.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc
